# CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH PEN-Y-BONT AR OGWR

# 2022-25






Catrin Evans Consultancy

## Crynodeb Gweithredol

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Cyfeirir at hyn yn aml fel y Ddyletswydd Adran 6. Fe wnaeth y Cyngor gynhyrchu *Biodiversity and Ecosystem Resilience Forward Plan* ar gyfer y cyfnod 2018-2022, gan nodi'r camau y byddai'n eu cymryd i fodloni'r gofyniad deddfwriaethol hwn. Cafodd y gwaith o gyflwyno Cynllun 2018-22 ei adolygu, a nodwyd y canfyddiadau yn *Bridgend Biodiversity and Ecosystem Resilience Progress Report, 2018-21*.

Mae'r Cynllun newydd hwn, Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, 2022-25, yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd am y tair blynedd nesaf. Mae'n cael ei lywio gan argymhellion yr Adroddiad Cynnydd, a dynnodd sylw at gryfderau i adeiladu arnynt, a meysydd ar gyfer gwella'r ddarpariaeth.

Bwriad camau gweithredu'r Cynllun hwn yw ymwreiddio darpariaeth bioamrywiaeth ar draws yr holl sefydliad, gan adlewyrchu'r casgliad eang o weithgareddau a swyddogaethau sydd â'r potensial i gyfrannu at ymdrechion byd-eang, cenedlaethol a lleol i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r Ddyletswydd yn gyfrifoldeb eang i'r Cyngor; felly, datblygwyd y Cynllun gyda chyfraniad gan y staff a'r adrannau a fydd yn gyfrifol am ei gyflwyno.

Mae’r Ddyletswydd Adran 6, ac wedyn y camau gweithredu yn y Cynllun, yn ymwneud â swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor, h.y., rhai y gellir eu cyflawni'n uniongyrchol gan y Cyngor. Felly nid yw'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer sefydliadau partner, grwpiau cymunedol na'r cyhoedd, ond mae'n nodi camau gweithredu i'r Cyngor, lle gall gyfrannu at gefnogi gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth, gan gydnabod pwysigrwydd gweithio ar y cyd i gyflawni newid go iawn.

Mae'r mesurau sydd yn y Cynllun hwn yn rhan o uchelgais ehangach y Cyngor i ddarparu amgylchedd naturiol iach, gan gefnogi cymunedau a bywoliaethau. Mae bioamrywiaeth yn sail i bob elfen o'n bywydau, gan ddarparu nwyddau, rheoleiddio gwasanaethau ecosystemau megis carbon, a chyfrannu at iechyd a threftadaeth ddiwylliannol. Felly bydd cyflwyno Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud cyfraniad hanfodol at Nodau Llesiant Cymru, a bodloni nodau ac amcanion Cynllun Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr.

Llun y clawr: Draenog, © *Alexas Fotos ar Unsplash*; Traeth Rest Bay; Dôl blodau gwyllt, GNG Cynffig; ‘Ceidwad y Caeau', Caeau Aber



# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 1

1.1 Cyflwyno’r Sefyllfa ..... 1

1.2 Cefndir ..... 1

1.3 Rhoi'r Cynllun ar Waith ..... 2

2. Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr ..... 3

2.1 Trosolwg ..... 3

2.2 Cynllun Adfer Natur Pen-y-bont ar Ogwr ..... 4

3. Cyd-destun Cyfreithiol a Pholisi ..... 6

3.1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ..... 6

3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ..... 6

3.3 Cynllun Llesiant Gwasanaeth Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, 2018-23 ..... 7

3.4 Cynllun Corfforaethol 2018-23 (adolygwyd ar gyfer 2022-23) ..... 7

3.5 Cynllun Datblygu Lleol a Chynllunio ..... 8

3.6 Trywydd Sero Net erbyn 2030 ..... 8

3.7 Cynllun Rheoli Cyrchfan ..... 8

3.8 Polisïau Bioamrywiaeth Cenedlaethol ..... 8

4. Camau Gweithredu ..... 11

5. Monitro ac Adrodd ..... 19

Atodiadau ..... 21

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyno'r Sefyllfa

Mae'r argyfwng natur yn hawlio'r penawdau fwyfwy oherwydd cyflymder brawychus dirywiad bioamrywiaeth, gyda chydnabyddiaeth gynyddol bod angen rhoi blaenoriaeth gyfartal a brys i fioamrywiaeth fel ag a roddir i newid yn yr hinsawdd.

Yn 2021, fe wnaeth ymchwil gan y Natural History Museum a'r RSPB, nodi Cymru fel un o'r gwledydd sydd wedi'i disbyddu fwyaf o ran natur yn y byd, ac wedi'i sgorio fel yr unfed ar bymtheg gwaethaf o blith y 240 o wledydd a aseswyd. Yn 2019, nododd y State of Nature Report ostyngiad parhaus mewn bioamrywiaeth, gyda 17% o rywogaethau a aseswyd yn cael eu hystyried fel rhai sydd mewn perygl o ddiflannu'n llwyr o Gymru.

Mae angen gweithredu ar frys i wyrdroi'r dirywiad byd-eang hwn mewn bioamrywiaeth, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn cydnabod bod rhaid iddo fod yn rhan o ymdrech ar y cyd i gyflawni'r newid sydd ei angen. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd er budd bioamrywiaeth dros y tair blynedd nesaf, o adeg mabwysiadu'r Cynllun tan ddiwedd 2025.

## 1.2 Cefndir

Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno **dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau** well (Dyletswydd Adran 6) i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd i'w gweld yn fanylach yn Atodiad 1, ond i grynhoi, mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio

*cynnal a gwella bioamrywiaeth, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.*

**Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (BER)**

Gallu ecosystem i wrthsefyll pwysau neu alwadau, ond gan barhau i weithio fel ecosystem. Wedi'i ddylanwadu gan amrywiaeth, graddau, cyflwr a chysylltedd fel arfer.

Yn unol â’r ddeddfwriaeth, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun cyntaf, sef **Bridgend Biodiversity and Ecosystems Resilience (BER) Forward Plan**[1], yn nodi sut y byddai'n bodloni'r ddyletswydd hon, ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2022. Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus adrodd ar weithredu'r Cynllun bob tair blynedd, gan ddangos cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Adran 6.

Cafodd adolygiad annibynnol ei gynnal gan Catrin Evans Consultancy, a oedd yn cynnwys cyfres o weithdai gydag adrannau perthnasol ym mhob cwr o'r Cyngor. Fel rhan o'r gweithdai, cafodd pob un o'r camau gweithredu eu hadolygu, gan roi'r cyfle i sawl adran lywio cynnydd mewn darpariaeth ar y cyd, a rhoi adborth ar yr heriau wrth gyflawni, a chyfleoedd ar gyfer ffyrdd gwell o weithio.

Cyflwynwyd canlyniad yr adolygiad fel **Bridgend Biodiversity and Ecosystem Resilience Progress Report, 2018-21**. Roedd yr adolygiad yn cyfeirio at enghreifftiau niferus o weithredu cadarnhaol ar ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, fodd bynnag, roedd yn cyflwyno nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth hefyd, i fynd i’r afael â nhw mewn Cynllun diwygiedig.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Adeiladu ar yr enghreifftiau cadarnhaol niferus o ddarparu prosiectau a ariennir gan grant a gwaith ymgysylltu â gwirfoddolwyr.
- Cynnal adnoddau ar y we sydd wedi hen ennill eu plwyf, sy'n darparu cyfleoedd gwych i bobl ymgysylltu â gweithgareddau bywyd gwyllt.
- Pwyslais cryfach ar sefydlu prosesau a systemau sy'n sicrhau dull cyson o fodloni'r Ddyletswydd Adran 6.
- Cynyddu proffil bioamrywiaeth fel blaenoriaeth gorfforaethol.
- Adeiladu'r sail dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth, gan sicrhau bod mecanweithiau’n bodoli i rannu a chasglu data.

Mae'r Cynllun hwn, **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, 2022-25**, yn egluro’r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei Ddyletswydd Adran 6 am y tair blynedd nesaf, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-2021. Mae'r cynllun, a gynhyrchwyd gan Catrin Evans Consultancy, wedi’i ddatblygu gyda chyfraniad adrannau allweddol ar hyd a lled y Cyngor, ac yn ceisio ymwreiddio'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Cynnydd.

## 1.3 Rhoi'r Cynllun ar Waith

Cyfrifoldeb y Cyngor cyfan yw cyflawni'r Cynllun, a'r Ddyletswydd Adran 6. Mae nifer o weithgareddau'r cyngor sy'n hynod berthnasol i fioamrywiaeth, sydd wedi cael sylw fel camau wedi'u targedu yn y cynllun. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai gweithgareddau eraill y cyngor

[1] Bridgend CBC Biodiversity and Ecosystem Resilience Forward Plan 2018-22

fodloni gofynion deddfwriaethol y Ddyletswydd Adran 6, a dylid nodi a mynd i'r afael â'r rhain, drwy ymgysylltu a datblygu gweithdrefnau gwaith parhaus wrth roi'r Cynllun ar waith.

Mae'r cyfrifoldeb am gynghori, rhoi cymorth a chasglu data adrodd ar gyfer y Cynllun wedi'i ddirprwyo i'r Tîm Cefn Gwlad, sy'n rhan o Adran yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau. Nodir gweithdrefnau monitro ac adrodd yn Adran 5.

# 2. Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr

## 2.1 Trosolwg

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn fwrdeistref sirol amrywiol, gydag ardaloedd ucheldirol wedi'u rhannu gan ddyffrynnoedd afonydd Llynfi, Garw ac Ogwr a thirweddau arfordirol helaeth. O fewn yr ardaloedd a'r tirweddau hyn ceir mosaig o gynefinoedd, fel coetiroedd hynafol a ffiniau gwrychoedd, glaswelltiroedd gwlyb a sialc, dyffrynnoedd afonydd, twyni tywod arfordirol a morfeydd heli.

Ceir safleoedd o bwys Ewropeaidd, gyda thair Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) yn y Fwrdeistref Sirol. Y rhain yw ACA Hen Dderw Mes Di-goes Melin Ifan Ddu, Glaswelltir Twyni, Llaciau Twyni a Dolydd Halen yr Iwerydd ACA Cynffig, ac ACA Glaswelltir Cefn Cribwr, a ddynodwyd am ei Laswelltir Glaswellt y Gweunydd a Gloÿnnod Byw Britheg y Gors.

Roedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig uchod wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn barod, gan mai nhw yw’r enghreifftiau gorau o'r cynefin dan sylw ac oherwydd eu maint. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr 14 SoDdGA, gydag un ohonynt yn SoDdGA daearegol yn Stormy Down. Mae'r cynefinoedd arfordirol yn nodweddion amlwg o arfordir Pen-y-bont ar Ogwr, gyda Gwarchodfa Natur Genedlaethol Merthyr Mawr ac ACA Cynffig yn naill gornel y ffin arfordirol a’r llall. Mae'r



Cwm Garw Uchaf

systemau twyni helaeth hyn yn llochesi pwysig o gynefin a arferai ymestyn o Afon Ogwr hyd at Benrhyn Gŵyr.

Rhwng y systemau twyni hyn, ceir cynefinoedd nodedig eraill, fel yr un a geir yng Nghomin Loc. Y Comin yw'r berfeddwlad i Rest Bay lle ceir glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau, prysgwydd, rhostir morol a brigiad mawr o galchbalmant, sydd ag ecoleg arbenigol iawn.

Mae 5 Gwarchodfa Natur Leol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnig cyfle da i bobl gael mynediad at natur, fel y mae safleoedd blaenllaw megis Parc Gwledig Bryngarw a Gwarchodfa Natur Parc Slip.

Mae rhywogaethau eiconig, fel y pathew, llygoden y dŵr a'r gardwenynen i'w gweld yma, tra bod tegeirian y fign galchog hynod brin a bregus, sydd i'w gweld mewn ychydig iawn o lefydd yn y DU yn unig, yn straeon llwyddiant yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig diolch i ymdrechion cadwraeth diweddar.

Mae mannau gwyrdd eraill yn cynnig cyfleoedd gwych i fywyd gwyllt hefyd ac yn helpu i gysylltu cynefinoedd. Mae'r mannau gwyrdd hyn yn cynnwys hen safleoedd glo sy'n prysur ildio i brosesau naturiol. Mae'r safleoedd hyn yn esgor ar amrywiaeth o rywogaethau prin ar sail leol, genedlaethol a rhyngwladol o bosib.

## 2.2 Cynllun Adfer Natur Pen-y-bont ar Ogwr



Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig

Mae'r Cynllun Adfer Natur ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi'r bioamrywiaeth, a'r gwasanaethau ecosystem sylfaenol, ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddarparu argymhellion ar gyfer eu gwella. Mae wedi'i ategu gan Asesiad Bioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau, Adroddiad Technegol. Gyda'i gilydd, gelwir y ddwy ddogfen yn Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Mae Cynllun Adfer Natur Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi'r camau gweithredu ar gyfer 16 o gynefinoedd daearol a 29 o rywogaethau, ynghyd â datganiad ar gyfer yr amgylchedd morol. Mae'r ddogfen hon yn darparu sail dystiolaeth bwysig a ddylai gael ei defnyddio i arwain camau bioamrywiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

# 3. Cyd-destun Cyfreithiol a Pholisi

## 3.1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, wrth arfer eu swyddogaethau. Yn aml cyfeirir at y ddyletswydd fel y Ddyletswydd Adran 6.

Mae Adran 7 y Ddeddf yn rhoi'r fframwaith ar gyfer adnabod rhywogaethau a chynefinoedd pwysig yng Nghymru, sy'n cael eu hystyried yn rhai o arwyddocâd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw cyhoeddi, a chadw golwg ar y rhestrau hyn.



Llygoden y Dŵr, Rhywogaeth Adran 7. ©Jonathan Ridley, Unsplash

Mae Dyletswydd Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i gynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 ynghyd â'r gofyniad ehangach ar gyfer cydnerthedd ecosystemau. At ddiben hwn y Cynllun hwn, defnyddir y term cyffredinol **Bioamrywiaeth** i adlewyrchu pob elfen o **Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau** sy'n gysylltiedig â'r Ddyletswydd.

## 3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt, a phum egwyddor datblygu cynaliadwy i'w mabwysiadu. Mae'r nodau llesiant ac egwyddorion datblygu cynaliadwy, ynghyd â sut y bydd gweithredu'r cynllun yn cyfrannu at y nodau, i'w gweld yn Atodiadau 2 a 3.

Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd sy'n sicrhau buddion hirdymor i les pobl, gyda'r amgylchedd naturiol yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o gyflawni'r nod hwnnw. Amcan Nod Cymru Gydnerth yw sicrhau 'cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid'.

Fe wnaeth dadansoddiad diweddar gan y Comisiynydd Llesiant, ar osod amcanion llesiant a chamau i fodloni gofynion Nod Cymru Gydnerth, dynnu sylw at orddibyniaeth gan gyrff cyhoeddus ar faterion amgylcheddol megis ailgylchu, glendid, tipio anghyfreithlon

a lleihau allyriadau[2]. Bydd y Cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod canlyniadau bioamrywiaeth yn cael eu hintegreiddio i gyflawni Nodau Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr.

## 3.3 Cynllun Llesiant Gwasanaeth Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, 2018-23

Mae Cynllun Llesiant presennol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn amlinellu sut yr hoffai i Ben-y-bont ar Ogwr edrych yn y dyfodol, a'r gweithgareddau y bydd yn eu datblygu i gyflawni ei amcanion llesiant, a nodir isod.

Amcan 1: Dechrau gorau mewn bywyd
Amcan 2: Cefnogi Cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
Amcan 3: Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
Amcan 4: Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

Mae gan gyflawni pob un o'r 4 amcan y potensial i gyfrannu at y Nod Cymru Gydnerth, tra mai Amcan 4, 'Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach' yw'r prif fodd o gyrraedd y nod hwn. Mae cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth yn ofyniad allweddol yn y blaenoriaethau a'r camau a nodir i gyflawni'r amcan hwn, sy'n cynnwys creu'r sail dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth, gwella'r ystad gyhoeddus a mannau gwyrdd a chodi ymwybyddiaeth.

## 3.4 Cynllun Corfforaethol 2018-23 (adolygwyd ar gyfer 2022-23)

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyflwyno gweledigaeth y Cyngor, 'Un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau', gyda'i amcanion llesiant ei hun.

Mae Amcan Llesiant 3, 'Gwell defnydd o adnoddau', yn nodi 'Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd Amgylcheddol' fel maes blaenoriaeth, sy'n cydnabod yr angen i **gynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.**

Amcanion Llesiant Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr




[2] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

## 3.5 Cynllun Datblygu Lleol a Chynllunio

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn arwain ac yn hyrwyddo datblygiad priodol yn y Fwrdeistref Sirol, ac fe'i defnyddir i lywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth allweddol yn y broses gynllunio, ac mae'r manylion yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol 19: Bioamrywiaeth a Datblygiad[3].

Mae rôl hollbwysig y system gynllunio ym maes cadwraeth natur wedi'i phwysleisio ymhellach yn *Nodyn Cyngor Technegol 5* Llywodraeth Cymru: *Cynllunio a chadwraeth natur*[4], sy'n egluro egwyddorion gwella, neu enillion net, ar gyfer bioamrywiaeth yn y system gynllunio.

## 3.6 Trywydd i Sero Net erbyn 2030

Mae Newid Hinsawdd yn fygythiad gwirioneddol i fioamrywiaeth, yn ogystal â phobl a chymunedau ledled y byd. Mae'r strategaeth sy'n datblygu yn nodi mesurau a gaiff eu cymryd gan y Cyngor i gyrraedd targed sero net erbyn 2030, gan gydnabod y rôl y mae'n rhaid i fioamrywiaeth ei chwarae wrth dynnu carbon o'r aer, trwy ddal a storio carbon mewn priddoedd, llystyfiant a chyrsiau dŵr.

## 3.7 Cynllun Rheoli Cyrchfan

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Pen-y-bont ar Ogwr yn amlinellu gweledigaeth i

*'Ddatblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n dathlu cryfderau unigryw'r lle, yn cefnogi swyddi, yn creu cyfleoedd busnes ac yn gwella'r ystod o amwynderau sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol.'*

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn adlewyrchu'r rôl bwysig bioamrywiaeth, a'r amgylchedd naturiol, ym maes twristiaeth, gan bennu'r flaenoriaeth o helpu i ddatblygu seilwaith twristiaeth trwy wella'r adnodd cefn gwlad.

## 3.8 Polisïau Bioamrywiaeth Cenedlaethol

Yn genedlaethol, mae sawl dogfen sy'n cyflwyno'r fframwaith er mwyn cyflawni i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ledled Cymru.

Mae'r **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**, a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am statws bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r **Polisi Adnoddau Naturiol** yn darparu fframwaith polisi gan Lywodraeth Cymru, gyda'r blaenoriaethau ynddo'n cael eu cyflwyno'n lleol drwy **Ddatganiadau Ardal**. Y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** yw'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Fioamrywiaeth i Gymru.

### Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Mae'r Adroddiad hwn, a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan CNC, yn darparu sylfaen dystiolaeth i Weinidogion Cymru ar gyfer datblygu ac adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol; ar gyfer CNC i baratoi Datganiadau Ardal; ac awdurdodau cynllunio lleol wrth adnewyddu

[3] Canllawiau Cynllunio Atodol 19: Bioamrywiaeth a Datblygu.

[4] TAN 5: Nature Conservation and Planning (Saesneg yn unig)

Cynlluniau Datblygu Lleol. Cafodd ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2016, ac mae diweddariad 2020 yn asesu cynaliadwyedd rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru, gan ddod i'r casgliad nad yw Cymru'n bodloni'r nodau tymor hir a osodwyd yn adroddiad 2016 hyd yma.

### Polisi Adnoddau Naturiol

Mae'r Polisi hwn yn nodi sut y gall polisïau llywodraethau gyflawni amcanion economaidd ac amgylcheddol, gan gydnabod na ddylid ystyried materion amgylcheddol fel rhywbeth ar wahân mwyach. Mae'n cyflwyno'r heriau a'r cyfleoedd allweddol yng Nghymru o safbwynt ein hamgylchedd naturiol, gan nodi tair blaenoriaeth genedlaethol:

- Darparu atebion seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.

### Datganiad Ardal Canol y De

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gynhyrchu Datganiadau Ardal, sy'n pennu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd lleol i weithredu blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol. Mae Cymru wedi'i rhannu'n saith ardal ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o ardal Canol De Cymru gyda Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

Dyma themâu Datganiad Ardal Canol De Cymru:

- Adeiladu ecosystemau gwydn
- Cysylltu pobl â natur
- Gweithio gyda dŵr
- Gwella ein hiechyd
- Gwella ansawdd ein haer.

### Cynllun Adfer Natur Cymru (NRAP)

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn nodi sut y bydd Confensiwn Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig ar Gynllun Strategol Amrywiaeth Fiolegol ar gyfer Bioamrywiaeth, a thargedau cysylltiedig Aichi[5], yn cael sylw yng Nghymru.

Mae ***Rhan 1: Ein strategaeth ar gyfer Natur***, yn egluro uchelgais Llywodraeth Cymru o wyrdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion sydd angen eu cyflawni i gyrraedd y nod hwn, y cyfeirir atynt fel Amcanion NRAP.

Uchelgais NRAP: Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.

Amcanion NRAP:

- Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel
- Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

[5] Targedau CBD Aichi: https://www.cbd.int/sp/targets/

- Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
- Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro
- Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Bydd darparu'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn uniongyrchol.

# 4. Camau Gweithredu

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyflawni Dyletswydd Adran 6 ac adrodd arni, mae'r camau gweithredu sy'n sail i'r Cynllun hwn wedi'u gosod o fewn fframwaith Amcanion NRAP. Er bod pob gweithred wedi'i dyrannu i'r Amcan NRAP mwyaf perthnasol, heb os, bydd y mwyafrif helaeth yn cyflawni yn erbyn sawl amcan.

Mae'r camau hyn i'w gweithredu gydol cyfnod y Cynllun tair blynedd, gyda chynnydd yn erbyn pob un o'r mesurau i'w adrodd, fel y bo'n briodol, bob blwyddyn. Mae Adran Arweiniol ddangosol ar gyfer pob mesur wedi'i nodi, fodd bynnag bwriedir hyn fel canllaw, ac nid yw'n atal timau neu adrannau eraill rhag eu gweithredu.

## 4.1: Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

| Rhif | Cam gweithredu | Mesur | Adran Arweiniol |
|---|---|---|---|
| 1 | Dangos ymrwymiad y Cyngor i gyflawni ei Ddyletswydd Adran 6 a mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth, gan gydnabod bioamrywiaeth fel blaenoriaeth gorfforaethol, ochr yn ochr ag uchelgeisiau ehangach ar gyfer newid hinsawdd. | Gwneud ymrwymiad cyhoeddus ar fwriad y Cyngor i gyflawni camau bioamrywiaeth, megis cofrestru i Ddatganiad Caeredin a datgan Argyfwng Natur, wedi'u hategu gan gamau i gyflawni'r amcanion hyn.<br><br>Adolygu blaenoriaethau corfforaethol, gan archwilio cyfleoedd i osod bioamrywiaeth fel blaenoriaeth ochr yn ochr â gweithredu ar yr hinsawdd.<br><br>Gosod targedau mesuradwy o fewn y Cynllun Corfforaethol, sy'n dangos dull corfforaethol o fodloni'r Ddyletswydd Adran 6. | Cefn Gwlad<br><br><br>Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad |
| 2 | Ymwreiddio canlyniadau bioamrywiaeth mewn strategaethau a pholisïau corfforaethol ac adrannol. | Dangos sut mae canlyniadau bioamrywiaeth wedi'u hymwreiddio mewn strategaethau a pholisïau ehangach.<br><br>Adrodd ar fesurau sydd wedi eu cymryd i ymwreiddio bioamrywiaeth mewn prosesau caffael. Dylai hyn gynnwys cynnwys bioamrywiaeth mewn prosesau presennol lle bo hynny'n briodol, ac ystyried canlyniadau bioamrywiaeth yn yr adolygiad nesaf o'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol-gyfrifol. | Pawb<br><br><br>Caffael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Cefnogi datblygiad pellach dull cydweithredol a rennir o ymdrin â bioamrywiaeth ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan archwilio'r cyfleoedd i integreiddio canlyniadau BER i bolisïau, strategaethau a gweithgareddau ehangach. | Sefydlu proses i sicrhau bod canlyniadau allweddol gan Gynlluniau Dyletswydd Bioamrywiaeth Partner, a gwybodaeth fioamrywiaeth berthnasol, yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio ac asesu llesiant.<br><br>Adroddiad ar y camau a gymerwyd i gefnogi, neu annog, ymwreiddio canlyniadau bioamrywiaeth yn strategaethau a pholisïau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n bartneriaid. | Gwasanaethau Partneriaeth<br><br>CHEX (Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| 4 | Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn llawn ym mhroses pwyllgorau o wneud penderfyniadau, naill ai fel rhan o asesiad Goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, neu fel gofyniad annibynnol. | Adrodd am adolygu bioamrywiaeth fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, gan ddarparu enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol i fioamrywiaeth fel y bo'n briodol. | Cefn Gwlad |
| 5 | Helpu i godi ymwybyddiaeth a meithrin gallu drwy integreiddio bioamrywiaeth i hyfforddiant corfforaethol / aelodau a chynnal proses barhaus o ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth wrth i gyfleoedd godi. | Dangos sut mae bioamrywiaeth yn rhan o fodiwl e-ddysgu corfforaethol ar gyfer staff newydd.<br><br>Adroddiad ar ddarparu hyfforddiant / ymgysylltu ag aelodau etholedig<br><br>Adroddiad ar godi ymwybyddiaeth neu hyfforddiant bioamrywiaeth yn fewnol, gan ymateb i'r cyfleoedd sy'n codi pan nodir gofyniad newydd. | Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad<br><br>Pawb / Cefn Gwlad |
| 6 | Cynnal archwiliad o wasanaethau a'u potensial i effeithio ar, a chyfrannu at, fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Gan weithio ar y cyd, sefydlu gweithdrefnau gwaith i sicrhau dull cyson o ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. | Cofnod o'r holl wasanaethau yr ymgysylltwyd â nhw ar draws y Cyngor, a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. | Cefn Gwlad |
| 7 | Ymwreiddio gweithdrefnau a mesurau bioamrywiaeth ymhellach i weithgareddau o | Darperir tystiolaeth o weithdrefnau bioamrywiaeth yn cael eu dilyn ar draws meysydd gwasanaeth, gyda phwyslais ar ymgysylltu'n gynnar ar gyngor ecolegol. | Pawb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddydd i ddydd, gan sicrhau dull cyson o weithredu'r Ddyletswydd Adran 6. | | |
| 8 | Rhoi mesurau ar waith i sicrhau dull cyson o ddiogelu a gwella bioamrywiaeth wrth reoli asedau'r Cyngor. | Adrodd am fesurau diogelu a gwella bioamrywiaeth, a pholisïau, wedi'u hymwreiddio yng Nghynllun Rheoli Asedau 2022-2030.<br><br>Mae gweithdrefnau diogelu a gwella bioamrywiaeth wrth reoli neu waredu asedau'r Cyngor yn cael eu gweithredu a'u hadrodd yn gyson. | Landlord Corfforaethol<br><br>Landlord Corfforaethol / Pawb |
| 9 | Mae cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn rhan annatod o broses SABs (Bwrdd Cynghori Systemau Draenio Cynaliadwy). | Mae mewnbwn ecolegol wedi'i gynnwys wrth ddylunio a gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy a asesir trwy'r broses SABs. | H&GS |
| 10 | Sicrhau bod gofynion bioamrywiaeth yn rhan annatod o gynllunio, dylunio a gweithredu cynlluniau a phrosiectau newydd, drwy ymgysylltu'n gynnar ar faterion ecolegol. | Mae mesurau diogelu a gwella bioamrywiaeth wrth ddarparu cynlluniau newydd yn cael eu gweithredu a'u hadrodd yn gyson. | Pawb |

### 4.2: Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

| Rhif | Cam Gweithredu | Mesur | Adran Arweiniol |
|---|---|---|---|
| 11 | Mae cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth drwy'r broses gynllunio yn cael eu cymhwyso'n gyson. | Cynhelir adolygiad o Ganllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd, gan adlewyrchu unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisïau newydd, amlinellu mesurau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth drwy'r broses gynllunio. | Cynllunio / Cefn Gwlad<br><br>Cynllunio / Cefn Gwlad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynhelir adolygiad o bolisïau cynllunio, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gwella a chydnerthedd ecosystemau'n cael sylw llawn, ochr yn ochr â mesurau diogelu.<br><br>Mae cynnwys adroddiadau penderfyniadau cynllunio'n adlewyrchu'n llawn arsylwadau ecolegol a ddarperir, gyda system fonitro wedi'i sefydlu ar fabwysiadu'r arsylwadau ecolegol. | Cynllunio / Cefn Gwlad |
| 12 | Sicrhau bod mesurau'n cael eu cymryd yn gyson i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth wrth reoli tir / asedau dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) rheoli eiddo, safleoedd tir glas a chefn gwlad, priffyrdd (gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus) a draenio, strwythurau, asedau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ac ati. | Cynhelir adolygiad mewnol o'r Strategaeth Priffyrdd a Pharciau, gan gynnwys adolygiad o'r drefn torri gwair a mesurau pellach i'w gweithredu.<br><br>Mae mesurau i reoli a gwella bioamrywiaeth drwy gynnal a chadw mannau gwyrdd a phriffyrdd yn cael eu gweithredu a'u hadrodd.<br><br>Dangosir cynnydd mewn tir sy'n cael ei reoli i hyrwyddo bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, i gynnwys archwilio dichonoldeb dileu sgil-gynhyrchion. | Cefn Gwlad / H&GS<br><br>H&GS / Pawb (fel y bo'n berthnasol)<br><br>H&GS / Pawb / Cefn Gwlad |
| 13 | Adolygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Gwarchodfa Natur Leol, gan sicrhau bod y gyllideb a'r adnoddau'n parhau i fod yn eu lle i'w cyflawni. | Mae'r holl Gynlluniau Rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol wedi'u hadolygu neu'n gyfredol, i gynnwys nodi gofynion monitro. Adroddir cynnydd yn erbyn gweithredu. | Cefn Gwlad |

## 4.3 Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

| Rhif | Cam gweithredu | Mesur | Adran Arweiniol |
|---|---|---|---|
| 14 | Ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid allweddol, megis cynghorau tref a chymuned, a thirfeddianwyr eraill, i gynyddu graddau, a | Adroddir ar enghreifftiau cadarnhaol o dirfeddianwyr / partneriaid sy'n ymwneud â darparu creu / gwella bioamrywiaeth. | Cefn Gwlad / Pawb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chysylltedd, tir sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth. | | |
| 15 | Wrth i gyfleoedd godi, chwilio am gyllid ychwanegol er mwyn darparu prosiectau bioamrywiaeth drwy ddulliau cyllid grant allanol, lle bo modd, gweithio'n gydweithredol a / neu'n rhanbarthol i sicrhau'r budd gorau posibl. | Sicrhau bod gan staff ddigon o gapasiti i ddatblygu a bwrw ymlaen â phrosiectau partneriaeth a rhai wedi'u hariannu'n allanol er mwyn helpu i gyflawni'r Cynllun Adran 6.<br><br>Adroddir ar weithgareddau a chanlyniadau ceisiadau grant a chyflawni prosiectau.<br><br>Os yw'r adnoddau'n caniatáu, sefydlu mecanweithiau cyllido sy'n galluogi gweithredu â ffocws cymunedol ar gyfer bioamrywiaeth. | Cefn Gwlad<br><br>Pawb<br><br>Cefn Gwlad |
| 16 | Meithrin dull cyson o reoli coed a choetir ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan weithredu'r Polisïau Rheoli Coed a CDLl SPG07 (Coed a Datblygiad), ochr yn ochr â pholisïau neu gynlluniau sy'n datblygu / corfforaethol, megis y Cynllun Gweithredu ar Glefyd Coed Ynn. | Adroddir ar statws, a gweithredu, polisïau perthnasol i gefnogi rheolaeth ecolegol gynaliadwy / plannu coed a choetir. | Pawb |
| 17 | Defnyddir mapio a thystiolaeth Seilwaith Gwyrdd i lywio camau ehangach ar gyfer bioamrywiaeth, gan gefnogi cydnerthedd a chysylltedd ecosystemau. | Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi'i gynnal a'i adolygu'n gyson, gyda mewnbwn ecolegol, fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.<br><br>Defnyddir tystiolaeth a mapio seilwaith gwyrdd i lywio camau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.<br><br>Cwblhau a defnyddio adroddiad cysylltedd cynefinoedd i lywio camau gweithredu ar gyfer cysylltedd gwell a cydnerthedd ecosystemau. | Cynllunio<br><br>Cefn Gwlad / Pawb<br><br>Cefn Gwlad |

### 4.4 Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

| Rhif | Cam Gweithredu | Mesur | Adran Arweiniol |
|---|---|---|---|
| 18 | Meithrin agwedd gyson at Rywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) drwy weithredu'r Polisi Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol sy'n datblygu. Dylai hyn gynnwys mynd i'r afael ag INNS presennol, ochr yn ochr ag osgoi INNS mewn cynlluniau tirlunio. | Adroddir ar statws y Polisi Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol.<br><br>Mae Swyddog ymroddedig ar waith i oruchwylio'r broses o reoli INNS. | H&GS<br><br>Cefn Gwlad |
| 19 | Cymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy weithredu'r Strategaeth Ddatgarboneiddio, gan sicrhau nad yw camau ar newid hinsawdd yn cael eu gweithredu ar draul bioamrywiaeth bresennol. | Adroddir ar gynnydd wrth weithredu'r Strategaeth Datgarboneiddio.<br><br>Adroddir ar gyfleoedd i ddefnyddio atebion seiliedig ar natur i ddatgarboneiddio, gan gynnwys cydnabod rôl storfeydd carbon pridd a gwlyptir, yn ogystal â choetir a choed. | Adnoddau Naturiol<br><br>Adnoddau Naturiol |
| 20 | Ymwreiddio atebion bioamrywiol a brodorol seiliedig ar natur mewn Prosiectau Adfywio ar ddylunio trefol a darparu mentrau tirlunio / seilwaith gwyrdd. | Adroddir ar fentrau seilwaith gwyrdd, a gynlluniwyd gyda chyfraniad ecolegol. | Adfywio Strategol / Pawb (fel y bo'n berthnasol) |
| 21 | Cefnogi ymdrechion i ddefnyddio a chynyddu'r defnydd o bori cadwraeth fel dull o wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. | Adroddir ar enghreifftiau cadarnhaol o gefnogi / gweithio ar y cyd i alluogi pori cadwraeth.<br><br>Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar bori cadwraeth, ac i annog perchnogaeth cŵn cyfrifol a defnydd cyfrifol o gefn gwlad. | Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad |

## 4.5 Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

| Rhif | Cam gweithredu | Mesur | Adran Arweiniol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Sefydlu system sy'n sicrhau bod data bioamrywiaeth yn hygyrch ac yn gallu llywio'r gwaith o gyflawni gweithgareddau'r Cyngor a chamau gweithredu bioamrywiaeth. | Sefydlu system ar gyfer coladu a rhannu data bioamrywiaeth yn y tîm Cefn Gwlad, ac i SEWBReC.<br><br>Sicrhau bod chwiliadau'r Canolfan Gofnodion (SEWBReC) yn cael eu cynnal yn ôl cyngor y tîm Cefn Gwlad. | Cefn Gwlad<br><br>Pawb |
| 23 | Adeiladu'r sail dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth drwy gynnal arolygon cynefinoedd a rhywogaethau wedi'u targedu neu fonitro, fel bo'n briodol. | Cefnogir y Bartneriaeth Natur Leol wrth gynnal, neu hwyluso arolygon ecolegol i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Drwy weithio mewn partneriaeth, gwneud defnydd o gyfleoedd cyllid, neu lle bo angen i lywio gweithgareddau'r cyngor, cynhelir arolygon ecolegol a monitro a'u bwydo i mewn i system gofnodi data.<br><br>Sefydlu system i adolygu data Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn barhaus. | Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad / Pawb<br><br>Cefn Gwlad |
| 24 | Mae'r Bartneriaeth Natur Leol ar waith i ddarparu arbenigedd a gwybodaeth i lywio camau a chyngor bioamrywiaeth. | Darperir Cymorth Ysgrifenyddiaeth i sicrhau y gall y Bartneriaeth Natur Leol weithredu fel grŵp cynghori, arbenigol a chyflawni. | Cefn Gwlad |
| 25 | Parhau i alinio â Datganiadau Ardal, a chefnogi CNC i ddatblygu neu ddiwygio’n barhaus. | Adroddiad ar lle mae cynlluniau a strategaethau wedi alinio â Datganiadau Ardal, i gynnwys y Cynllun Llesiant a'r Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Lle bo'n berthnasol, darperir cymorth i CNC wrth adolygu Datganiadau Ardal. | Pawb<br><br>Cefn Gwlad |

### 4.6. Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni’r amcanion

| Rhif | Cam Gweithredu | Mesur | Adran Arweiniol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | Cefnogi'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth i fod yn eiriolwr dros fioamrywiaeth, drwy ymgysylltu a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Tîm Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth a'r tîm Cefn Gwlad.<br><br>Adroddir ar enghreifftiau o gefnogaeth, eiriolaeth a chyfranogiad Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth wrth ddarparu gweithgareddau a mentrau bioamrywiaeth. | Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth / Cefn Gwlad<br><br>Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth |
| 27 | Cynrychiolaeth briodol o'r maes bioamrywiaeth mewn cyfarfodydd a thrafodaethau corfforaethol a thrawsadrannol. | Adroddir ar fewnbwn i gyfarfodydd corfforaethol neu uwch reoli, naill ai drwy ymwneud yn uniongyrchol neu drwy ddarparu gwybodaeth ategol. | Cefn Gwlad |
| 28 | Adolygu'r gyllideb a chapasiti'r i staff i gyflawni gofynion Dyletswydd Adran 6, gyda'r bwriad o gynyddu'r capasiti presennol ar gyfer cyngor ecolegol a darparu prosiectau. | Mae capasiti staff yn cael ei adolygu ac mae'r penderfyniad dilynol yn cael ei adrodd.<br><br>Gofynion cyllideb ar gyfer cyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 fel rhan o adolygiadau cyllideb ehangach. | Adnoddau Naturiol<br><br>Adnoddau Naturiol |
| 29 | Cefnogi'r gwaith o ddarparu camau bioamrywiaeth drwy weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithio ar y cyd. | Mae prosiectau cydweithredol, sy'n cynnwys gweithredu cadarnhaol dros fioamrywiaeth, yn cael eu gweithredu gan weithgorau presennol, sy'n cysylltu â gweithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle bo'n briodol.<br><br>Adrodd ar gamau a gymerwyd er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau Dyletswydd Bioamrywiaeth partneriaid unigol. | Pawb<br><br>Cefn Gwlad / Gwasanaethau Partneriaeth |
| 30 | Galluogi camau gweithredu, gwybodaeth ac ymgysylltu â ffocws cymunedol drwy gefnogi a hwyluso rhwydweithiau a phartneriaethau megis y Bartneriaeth Natur Leol a Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr. | Mae'r Bartneriaeth Natur Leol yn weithgar ac yn cael cefnogaeth y Cyngor. Cefnogir adrodd ar gyfarfodydd a chyflwyno prosiectau / gweithgareddau.<br><br>Darperir cefnogaeth barhaus ar gyfer partneriaethau cymunedol a phartneriaethau sy'n canolbwyntio ar wirfoddolwyr, fel Rhwydwaith Gwyrdd | Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Pen-y-bont ar Ogwr, gan gydnabod y bydd angen cyllid / adnoddau parhaus i ddarparu'r swyddogaeth hon. Cefnogir adrodd ar gyfarfodydd a chyflwyno prosiectau / gweithgareddau. | |
| 31 | Hyrwyddo gweithredu cymunedol drwy ddarparu deunyddiau ar y we, hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth BER. | Mae adnoddau bioamrywiaeth ar y we yn cael eu cynnal a'u diweddaru fel y bo'n briodol. Os bydd cyllid ar gael, gall hyn gynnwys cynhyrchu mapiau ward, neu fapiau tirwedd, ar beth i'w archwilio, beth y gellir ei weld a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth.<br><br>Mae rhaglen o weithgareddau hyfforddi / ymgysylltu â ffocws cymunedol ar gyfer bioamrywiaeth yn cael eu darparu ac adroddir amdanynt. | Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad |
| 32 | Sicrhau bod y Ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'i hadolygu. | Drwy alinio â'r Cynllun Corfforaethol, mae system i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn Dyletswydd Adran 6 ar waith ac yn cael ei gweithredu, i gynnwys craffu a goruchwyliaeth wleidyddol a chorfforaethol.<br><br>Sefydlwyd methodoleg i ymwreiddio adrodd ar ganlyniadau bioamrywiaeth mewn adroddiadau cyflenwi gwasanaethau. | Cefn Gwlad<br><br>Cefn Gwlad |

## 5. Monitro ac Adrodd

Bydd y gwaith o fonitro'r Cynllun yn cael ei wneud yn flynyddol, gydag adolygiad llawn wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2025. Bydd yr adolygiad yn llywio'r gwaith o greu Adroddiad Gweithredu, i'w gyhoeddi a'i adrodd i Lywodraeth Cymru. D.S. Bydd cynnydd perthnasol yn erbyn cyflawni, sy'n digwydd rhwng cynhyrchu Adroddiad Gweithredu 2018-21 a mabwysiadu Cynllun 2022-25, yn cael ei gynnwys mewn gweithgareddau monitro ac adrodd am y Cynllun newydd.

Y Tîm Cefn Gwlad fydd yn gyfrifol am gasglu'r holl ddata a gwybodaeth fonitro, a chynhyrchu'r Adroddiad Gweithredu. Mae gweithredu'r Cynllun yn ddibynnol ar fewnbwn gan adrannau ar draws y sefydliad, felly bydd datblygu system fonitro sy'n cyd-fynd â dulliau adrodd

adrannol a gofynion y Cynllun Corfforaethol cyhyd ag y bo modd, yn hwyluso’r broses. Bydd y Tîm Cefn Gwlad yn darparu hyfforddiant, lle bo angen, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun a'r Ddyletswydd Adran 6 gysylltiedig.

Bydd cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun yn cael ei adrodd i Bwyllgor Craffu Tri, a'r Cabinet yn ôl y galw. Bydd yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ychwanegol.



# Atodiadau

## Atodiad 1: Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (Detholiadau o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), 2016)

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

(2) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, a'r agweddau a ganlyn yn benodol—

a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
c) graddfa ecosystemau;
d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
e) gallu ecosystemau i addasu.

(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1)—

a) rhaid i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron ac unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992, a
b) rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i—

a) y rhestr a gyhoeddwyd o dan adran 7;
b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddwyd o dan adran 8;
c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.

(6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1).

(7) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio ag is-adran (1).

(8) O ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6)—

a) rhaid iddo adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad a gyhoeddir ganddo o dan is-adran (7), a

b) caiff adolygu'r cynllun unrhyw bryd.

## Atodiad 2: Nodau llesiant

| Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Disgrifiad Nodau Llesiant | Cyflawni'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth |
|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Mae Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau’n rhan annatod o ffyniant economaidd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cefnogi twristiaeth, bywoliaethau lleol a darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd). | Bydd cyflawni'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod Cymru Gydnerth, drwy ddiogelu, a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn cynnwys amddiffyniad drwy'r broses gynllunio, rheoli asedau'r Cyngor, darparu prosiectau â ffocws partneriaeth a chymunedol i reoli cynefinoedd gwerthfawr ac ennyn diddordeb y cyhoedd mewn gweithgareddau y gall pobl eu cyflawni eu hunain. |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli a gwell mynediad i fannau gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu i gyrraedd y nod o sicrhau Cymru iachach. Hefyd, mae'r gwaith o wella cynefinoedd i gyd yn cyfrannu at amgylchedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | naturiol mwy iachus, yn gwella ansawdd aer, yn lleihau llifogydd a chefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd. | Bydd gweithgareddau gwirfoddoli ac ymgysylltu'n rhoi cyfle i bawb brofi ac elwa ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol, tra bydd cynyddu gwybodaeth am safleoedd lleol yn cynyddu hygyrchedd i amrywiaeth ehangach o bobl. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Bydd gweithgareddau gwirfoddolwyr a chymorth i grwpiau cymunedol yn cefnogi ac yn dod â phobl at ei gilydd i gyflawni nodau cyffredin i wella eu hamgylchedd lleol. Bydd integreiddio seilwaith gwyrdd a nodweddion bioamrywiaeth i gynllunio trefol yn darparu lleoedd deniadol i ymweld â nhw a byw, law yn llaw â darparu manteision ecosystem ehangach. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Bydd cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu'n rhoi cyfle i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gan hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach. Bydd ymwneud â gwirfoddoli a phrosiectau lleol yn rhoi cyfle i rannu, a dysgu, am ddiwylliannau a threftadaeth leol, gyda threftadaeth naturiol wedi'i phlethu'n agos â threftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol ehangach yn aml. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang | Mae ymrwymiad y Cyngor i fentrau bioamrywiaeth lleol, yn enwedig o ran diogelu safleoedd lleol a gweithgareddau gwella cynefinoedd i gyd yn cyfrannu at uchelgeisiau byd-eang i fynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth. Ar ben hynny, bydd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgysylltu'n rhoi cyfle i gynyddu dealltwriaeth am y rôl sydd gan bobl o ran cyfrannu at les byd-eang. |

## Atodiad 3: Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith, sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf.

Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

Wrth wneud eu penderfyniadau, rhaid i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae pum peth y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd cadw at y dulliau gweithio hyn yn helpu sefydliadau i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael a rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu.

| | |
|---|---|
| Cydweithio | Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| Integreiddio | Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| Cynnwys | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |
| Hirdymor | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |

| | |
|---|---|
| Atal | Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |